CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

Lwfans Tai Lleol
Cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol ar gyfer Gorffennaf 2010

Ffordd o gyfrifo hawliadau newydd am Fudd-dal Tai yw'r Lwfans Tai Lleol. Mae'n cael ei dalu i denantiaid sy'n rhentu eiddo gan landlord preifat. Mae hefyd yn effeithio ar denantiaid sydd eisoes yn cael Budd-dal Tai ac sy'n symud i eiddo sy'n cael ei rentu gan landlord preifat. Cyflwynwyd Lwfans Tai Lleol ar y 7fed o Ebrill, 2008. Os ydych chi'n byw mewn tŷ cyngor neu dŷ cymdeithasol o unrhyw fath, ni fydd y Lwfans Tai Lleol yn effeithio arnoch chi.

Mae'r tabl isod yn dangos cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol ar gyfer Sir y Fflint.

Nifer yr ystafelloedd gwely	Sir y Fflint	Gogledd Clwyd	Sir Caer (Gorllewin)
Cyfradd rhannu ystafell	£65.00	£62.00	£65.00
1 ystafell wely	£86.54	£80.00	£103.56
2 ystafell wely	£111.92	£106.15	£126.58
3 ystafell wely	£126.92	£126.92	£143.84
4 ystafell wely	£173.08	£160.38	£195.62
5 ystafell wely	£241.74	£183.46	£253.15

I wybod pa gyfradd Lwfans Tai Lleol sy'n berthnasol i chi, mae angen i chi wybod sawl llofft y mae gennych hawl iddynt. Gallwch ddefnyddio'r wybodaeth isod i wneud hyn.

Rydych yn cael un ystafell wely ar gyfer:

- bob pâr priod neu ddi-briod (oedolion)
- unrhyw oedolyn 16+ oed
- unrhyw ddau blentyn o'r un rhyw dan 16
- unrhyw ddau blentyn dan 10
- unrhyw blentyn arall

Y cyfraddau uchod yw'r uchafswm a gallwch ei hawlio. Bydd y swm a gewch mewn gwirionedd yn dibynnu ar eich amgylchiadau personol fel incwm a chyfalaf.

Os nad ydych yn siŵr ym mha ardal mae'ch eiddo, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am y Lwfans Tai Lleol, cysylltwch â ni:

Rhif ffôn: 01352 704848. Mae'r llinell gymorth ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener 8.30am - 5pm.
Ebost: benefits@flintshire.gov.uk
Ewch i: Is-adran Budd-daliadau, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NR. Mae'r swyddfa ar agor i ymwelwyr o ddydd Llun i ddydd Gwener 8.30am - 5pm ac nid oes angen gwneud apwyntiad.

Cofiwch mai dim ond canllaw yw'r daflen hon. Nid yw'n dweud beth yn union yw'ch hawliau cyfreithiol. Er ein bod wedi ceisio gwneud yn siŵr bod y wybodaeth ar y daflen yn gywir ar y dyddiad a nodir ar y blaen, mae'n bosibl y bydd rhywfaint o wybodaeth yn anghywir neu y bydd rhai syniadau wedi'u gorsymleiddio. Hefyd, cofiwch fod y wybodaeth ar y daflen yn debygol o fod yn llai dibynadwy wrth i amser fynd heibio ac wrth i'r gyfraith newid.